Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Datganiad Polisi Cyflog 2024/25

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydnabod pwysigrwydd tegwch a thryloywder mewn perthynas â'i threfniadau cyflog i staff a'i chyfrifoldeb i sicrhau cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal.

1.2. Pwrpas y datganiad hwn yw darparu tryloywder o ran dull y brifysgol o osod cyflog ei staff trwy nodi'r dulliau y pennir cyflogau'r holl staff.

1.3. Mae'r datganiad wedi'i gynllunio er mwyn helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd ar sut y pennir cyflogau uwch staff yn benodol a'u hyder yn y broses honno.

2. Fframwaith deddfwriaethol

2.1. Sefydlwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ar 18 Tachwedd 2010 drwy uno Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin, o dan Siarter Frenhinol Llanbedr Pont Steffan ym 1828.

2.2. Ar 1 Awst 2013 daeth Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn rhan o PCYDDS. Siarter Frenhinol y Brifysgol yw'r hynaf yng Nghymru a Lloegr ar ôl prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

2.3. Mae PCYDDS wedi arwain y gwaith o ddatblygu strwythur prifysgol sector deuol, a elwir yn Grŵp PCYDDS, fframwaith i alluogi cydweithio â sefydliadau eraill yn y rhanbarth. Yn rhan o'r datblygiad hwn, unodd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion â Grŵp Y Drindod Dewi Sant yn 2013/14. Fe'u cynrychiolir ar y prif gyrff sy'n gwneud penderfyniadau academaidd o fewn y Brifysgol, gan gadw eu hunaniaeth sefydliadol nodedig eu hunain.

2.4. Mae PCYDDS a Phrifysgol Cymru wedi ymrwymo i integreiddio cyfansoddiadol di-droi'n ôl i greu Prifysgol sector deuol ar ei newydd wedd i Gymru. Mae'r ddwy Brifysgol wedi bod wrth wraidd bywyd addysgol a diwylliannol ers eu sefydlu yn 1828 ac 1893. Mae egwyddorion y polisi a nodir yn y datganiad hwn yn berthnasol i'r ddau sefydliad.

2.5. Wrth benderfynu cyflog a chyflogau pob un o'i gweithwyr, bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol.

3. Strwythur cyflog a gwneud penderfyniadau

3.1. Fe wnaeth Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA) a'r holl undebau llafur a gydnabyddir gan y sector addysg uwch (AU) negodi Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol ym Mai 2004 i ddiwygio strwythurau cyflog, graddau a rhai telerau ac amodau ar draws y sector.

3.2. Gweithredwyd y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol yn lleol ym mhob un o'r hen sefydliadau a unodd i ffurfio PCYDDS. Cafodd cytundeb lleol newydd ei negodi yn 2013 ag undebau llafur cydnabyddedig PCYDDS pan gysonwyd telerau ac amodau cyflogaeth yn dilyn uno PCYDDS a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe ac mae'n parhau ar waith heddiw. Mae cwmpas y cytundeb yn cynnwys yr holl staff ac eithrio'r Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Pro Is-Gangellorion.

3.3. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadau a gweithredu system gwerthuso swyddi gwrthrychol, dadansoddol Dadansoddi Rolau Addysg Uwch (HERA) ar gyfer yr holl staff ac eithrio'r swyddi rheoli hynny ar lefel cyflog uwch na'r golofn gyflog unigol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol (Atodiad 1).

3.4. Mae'r cytundeb lleol yn cynnwys y diffiniad o'r strwythur gradd a'r dyddiad dilyniant cynyddol ar gyfer staff ym mhob gradd sef 1 Awst bob blwyddyn.

3.5. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn gwneud taliad atodol mewn perthynas â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac enillodd achrediad fel cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Tachwedd 2019. Mae'r cyfraddau Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael eu pennu gan y Sefydliad Cyflog Byw sy'n berthnasol i staff sy'n cael eu cyflogi ar bwyntiau isaf y golofn gyflog.

4. Cydfargeinio

4.1. Mae PCYDDS yn cydnabod yr undebau llafur canlynol at ddibenion cydfargeinio ar delerau ac amodau cyflogaeth trwy gytundebau lleol.

- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- UNISON

4.2. Caiff adolygiad cyflogau blynyddol ar werthoedd ariannol y golofn gyflogau ei negodi ar lefel genedlaethol o dan arweiniad yr UCEA ar ran y prifysgolion sy'n aelodau sy'n dewis bob blwyddyn a ddylent gymryd rhan ai peidio.

4.3. Mae gweithdrefn genedlaethol y cytunwyd arni ar gyfer negodi cyflogau, sy'n cynnwys tri chyfarfod rhwng UCEA a'r undebau llafur sy'n cynrychioli'r sector. Fel arfer cynhelir y cyfarfodydd hyn ym mis Mawrth, Ebrill a Mai bob blwyddyn ac mae'r dyfarniad cyflog blynyddol yn dod i rym ar 1 Awst.

5. Cyflogau Uwch Swyddogion

5.1. Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am sefydlu Pwyllgor Sefydlog y Cyngor, a elwir yn Bwyllgor Taliadau, i bennu cyflog deg a phriodol i'r Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu, y Pro Is-Gangellorion a Chlerc y Cyngor.

5.2. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn gyfrifol am adolygu a phenderfynu, ar sail flynyddol, gyflogau, telerau ac amodau a phan fo'n briodol, amodau diswyddo'r deiliaid swyddi uwch uchod. Cyhoeddir y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Taliadau ar wefan y Brifysgol gan sicrhau bod y rhain ar gael i staff, myfyrwyr a'r holl randdeiliaid mewn

modd agored a thryloyw: Cyngor y Brifysgol | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (uwtsd.ac.uk) . Nid yw'r Is-Ganghellor yn aelod o'r pwyllgor hwn, ond fe'i gwahoddir i gynghori'r Pwyllgor mewn perthynas â swyddogion eraill o fewn ei gylch gorchwyl.

5.3. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried y cyd-destun y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo. Mae'n ystyried y gwerth a ddarperir gan unigolyn sy'n gweithredu o fewn rôl sy'n seiliedig ar gydrannau perthnasol ar gyfer cyd-destun PCYDDS.

5.4. Mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl argymhellion yn deg ac yn ystyried y diddordeb sefydliadol, y rhanddeiliaid allweddol a'r partneriaid gan gynnwys cymuned y myfyrwyr a'r gymdeithas ehangach. Mae diogelu arian cyhoeddus yn rhan o'i drafodion hefyd, ochr yn ochr â'r angen i recriwtio a chadw staff.

5.5. Mae'r Pwyllgor Taliadau'n ystyried sefyllfa'r farchnad a gwybodaeth gymharol briodol Prifysgolion eraill er mwyn llywio ei benderfyniadau fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan CCAUC (Medr bellach). Bydd hyn fel arfer yn cynnwys prifysgolion eraill o faint canolig dan arweiniad addysgu (yn seiliedig ar incwm), megis Prifysgol Derby, Prifysgol Northampton, Prifysgol Swydd Bedford, Prifysgol Lincoln, Prifysgol Caerwrangon, Prifysgol Bath Spa a Phrifysgol Edgehill.

5.6. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ystyried datgeliadau o unrhyw incwm a gynhyrchir gan unigolyn o gyrff allanol yn rhinwedd ei allu personol. Mae'r Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgeliadau ac esboniadau o'r fath gael eu gwneud ymlaen llaw cyn y caiff unrhyw weithgareddau eu cyflawni. Mae'r Pwyllgor yn ystyried datgeliadau o'r fath gyda'r bwriad o wrthod y broses o gadw incwm.

5.7. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn ystyried cyfradd flynyddol y cynnydd yn nhâl cyfartalog yr holl staff arall.

5.8. Arweiniodd trafodaethau cyflog cenedlaethol UCEA at gynnydd rhwng 5.7% ar gyfer staff ar ben isaf y golofn gyflogau a chynnydd o 2.5% ar gyfer staff ar bwynt colofn 38 neu'n uwch mewn perthynas â 2024-25. Yn ogystal, roedd y swm hwn i'w dalu mewn dau randaliad. Y rhandaliad cyntaf o £900, sy'n dod i rym o 1 Awst 2024, gyda'r ail randaliad i'w dalu o 1 Mawrth 25 ymlaen. Adroddodd UCEA fod y dyfarniad cyflog cenedlaethol yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 2.5% yng nghostau cyflog y sector.

5.9. O fewn telerau ymgysylltu UCEA â threfniadau bargeinio Cyflog Cenedlaethol, mae cymal sy'n caniatáu i sefydliad sy'n wynebu amgylchiadau lliniarol, ohirio gweithredu'r cynnydd mewn cyflog (heb daliad ôl-weithredol) am hyd at 11 mis ar y sail bod hynny er budd ehangach cynaliadwyedd y sefydliad neu o ganlyniad i broblemau llif arian uniongyrchol.

Yn unol â'r ddarpariaeth hon, gohiriwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer yr holl staff a'i weithredu ym mis Mehefin 2025 heb ôl-ddyddio. Lle oeddent yn gymwys, dyfarnwyd codiadau cyflog yn seiliedig ar gynnydd i staff yn y modd arferol o 1 Awst 2024 ymlaen.

5.10. Penderfynodd y Pwyllgor Taliadau adlewyrchu dyfarniad cyflog y sector ar gyfer Uwch Swyddogion o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Yn

unol â hynny, dyfarnwyd cynnydd o 2.5% a gohiriwyd ei weithredu tan fis Mehefin 2025 yn unol â'r dull y cytunwyd arno'n lleol ar gyfer yr holl staff.

5.11. Arweiniodd trafodaethau Cyflog Cenedlaethol JNCHES Newydd 2025-26 at gynnydd o 1.4% ar bob pwynt ar y golofn gyflog o 1 Awst 2025 gyda phwyntiau colofn 5 a 6 yn cael eu dileu.

5.12. Penderfynodd y Pwyllgor Taliadau adlewyrchu dyfarniad cyflog y sector ar gyfer Uwch Swyddogion o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Yn unol â hynny, dyfarnwyd cynnydd o 1.4% o 1 Awst 2025.

5.13. Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau sy'n gyfrifol am gyflwyno argymhellion y Pwyllgor Taliadau i Gyngor y Brifysgol.

5.14. Mae PCYDDS yn cyhoeddi ei Datganiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf. Mae hyn yn cynnwys cyflog yr Is-Ganghellor. Gellir gweld y Datganiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2025 yma: Adran Gyllid | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (uwtsd.ac.uk)

5.15. Mae Is-Ganghellor PCYDDS yn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru hefyd, ac mae cyfran briodol o'r cyflog blynyddol yn cael ei dosrannu i Brifysgol Cymru yn unol â hynny.

6. Y Cyflog Byw Gwirioneddol gwirfoddol

6.1. Cyflawnodd y Brifysgol achrediad fel cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Tachwedd 2019 ac mae wedi bod yn talu cyfraddau cyflog byw gwirioneddol ar sail wirfoddol ers 1 Awst 2017. Gweithredwyd y cyfraddau cymwys ar 1 Ebrill 2026 trwy dalu atodiadau fesul awr i staff mewn rolau parhaol ar bwyntiau isaf y golofn gyflog (Atodiad 1).

7. Cymarebau cyflog

7.1. 14 pwynt colofn ar golofn gyflog Sengl 2025 yw'r cyflog isaf yn y Brifysgol (Atodiad 1). Yr aelod o staff ar y cyflog uchaf yw'r Is-Ganghellor.

Mae cymhareb yr enillion uchaf i'r enillion canolrifol ar gyfer y Brifysgol ar gyfer 2024-25 (gyda'r gymhareb 2023/24 i'w cymharu) fel y ganlyn:

	2023/24	2024/25
Cymhareb yr enillion uwch â'r cyflog sylfaenol canolrifol	6.25:1	6.29:1

Ffynhonnell: Datganiadau Ariannol Cyfunol

Atodiad 1

Colofn gyflog sengl AU

Mae'r golofn gyflog sengl y cytunir arni'n genedlaethol yn cwmpasu'r mwyafrif o sefydliadau AU yn y DU gan gynnwys PCYDDS a Phrifysgol Cymru

Pwynt Colofn	Cyflog o 1 Awst 2024 (£)	Cyflog o 1 Mawrth 2025 (£)	Cyflog o 1 Awst 2025 (£)
3	Wedi'i ddileu	Wedi'i ddileu	Wedi'i ddileu
4	Wedi'i ddileu	Wedi'i ddileu	Wedi'i ddileu
5	21,780	22,080	Wedi'i ddileu
6	21,848	22,148	Wedi'i ddileu
7	22,154	22,454	22,768
8	22,443	22,743	23,061
9	22,728	23,028	23,350
10	23,114	23,414	23,742
11	23,581	23,881	24,215
12	24,044	24,344	24,685
13	24,600	24,900	25,249
14	25,148	25,448	25,804
15	25,433	25,733	26,093
16	26,038	26,338	26,707
17	26,642	26,942	27,319
18	27,344	27,644	28,031
19	28,081	28,381	28,778
20	28,879	29,179	29,588
21	29,659	29,959	30,378
22	30,505	30,805	31,236
23	31,387	31,637	32,080
24	32,296	32,546	33,002

25	33,232	33,482	33,951
26	33,882	34,132	34,610
27	34,866	35,116	35,608
28	35,880	36,130	36,636
29	36,924	37,174	37,694
30	37,999	38,249	38,784
31	39,105	39,355	39,906
32	40,247	40,497	41,064
33	41,421	41,671	42,254
34	42,632	42,882	43,482
35	43,878	44,128	44,746
36	45,163	45,413	46,049
37	46,485	46,735	47,389
38	47,874	48,149	48,822
39	49,250	49,559	50,253
40	50,694	51,039	51,753
41	52,183	52,566	53,301
42	53,715	54,136	54,893
43	55,295	55,755	56,535
44	56,921	57,422	58,225
45	58,596	59,139	59,966
46	60,321	60,907	61,759
47	62,098	62,728	63,606
48	63,929	64,605	65,509
49	65,814	66,537	67,468
50	67,757	68,529	69,488
51	69,757	70,579	71,566